## Hysbysiad Preifatrwydd Gwobr Gorfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi – Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sawl rhaglen ar gyfer datblygu gallu a chapasiti caffael ehangach sy'n cynnwys darparu cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol drwy lwybr Gwobr Gorfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS). Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw data personol i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu, cydlynu, hyrwyddo ac adolygu rhaglenni.

Llywodraeth Cymru a CIPS yw'r rheolwyr data a'r prosesydd data ar gyfer yr holl ddata a gesglir gan y tîm. Mae rheolwr data yn penderfynu sut a pham y gellir prosesu data personol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ichi am sut rydym yn trin eich data drwy raglenni Ymarferydd / Uwch-ymarferydd Gwobr Gorfforaethol CIPS.

## Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at rywbeth fyddai'n ei adnabod.'

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi i ddarparu Rhaglen Wobrwyo Gorfforaethol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer penodol o leoedd i fyfyrwyr astudio rhaglenni'r Wobr Gorfforaethol ar gyfer Ymarferwyr ac Uwch-ymarferwyr a ddarperir gan y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi ("CIPS").

Pan fydd myfyriwr yn cyflwyno Ffurflen Datganiad o Ddiddordeb ac yn arwyddo Cytundeb y Dysgwyr, bydd Llywodraeth Cymru yn casglu eich data personol chi a data personol eich cyflogwr. Mae hyn yn cynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad e-bost
- Sefydliad
- Manylion cyflogaeth
- Unrhyw ddata personol arall a ddarperir inni fel rhan o'ch cais neu gyfranogiad mewn Gwobr Gorfforaethol CIPS gan gynnwys manylion aelodaeth CIPS a chanlyniadau arholiadau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich data personol i ddatblygu, cydlynu, hyrwyddo a chyflwyno rhaglenni Gwobr Gorfforaethol CIPS. Drwy brofi eich data personol, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gysylltu â chi am faterion caffael sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith y gweithgareddau penodol sydd angen defnyddio eich data mae:

- Ymateb i ymholiadau
- Helpu'r broses o ddewis myfyrwyr
- Cynnwys myfyrwyr ar raglenni
- Gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd
- Monitro cynnydd y rhaglen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cytundeb Dysgu
- Casglu adborth am raglenni
- Monitro cyllid, gwaith gweinyddol, a darparu rhaglenni
- Monitro pwy sy'n gohirio ei aelodaeth i raglenni neu sy'n ei thynnu yn ôl
- Rhoi gwybod am berfformiad myfyriwr i'w gyflogwr, sy'n cynnwys rhoi gwybod am bresenoldeb, am ganlyniadau ac am gyfleoedd i ailgyflwyno gwaith
- Gwerthuso perfformiad Rhaglen Gwobr Gorfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS)

## Adrodd

Bydd gan Lywodraeth Cymru fynediad at ganlyniadau myfyrwyr ac am waith sydd wedi'i ailgyflwyno. Bydd y data hyn yn cael eu defnyddio wrth adrodd ar draws Llywodraeth Cymru. Gellir rhannu cofnodion myfyrwyr, megis canlyniadau a gwaith sydd wedi'i ailgyflwyno, gyda'u cyflogwr i fonitro'r cynnydd drwy gydol y rhaglen. Lle bo hynny'n bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn dileu eich gwybodaeth bersonol wrth adrodd i gynulleidfaoedd ehangach.

Caiff gwybodaeth myfyrwyr ei chadw ar gofnod meistr-raglen, ac fe'i defnyddir at y dibenion a amlinellir yn yr hysbysiad hwn yn unig.

## Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio eich data personol?

O dan Erthygl 6 o Reoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig, y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yw Buddiant Dilys. Hynny yw drwy brosesu eich data personol, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu eich helpu i ddatblygu, cydlynu, hyrwyddo, adolygu a chyflwyno Rhaglen Gwobr Gorfforaethol CIPS.

Mae cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Gwobr Gorfforaethol CIPS yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni'r amcanion canlynol:

- Cymorth i broffesiynoli caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan dyfu gwybodaeth fasnachol a gallu – a chapasiti o ganlyniad i hynny;
- Cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol ym maes caffael ar draws sector cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau polisi yng Nghymru.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol a gyda phwy rydym yn rhannu eich gwybodaeth?

Bydd gwybodaeth bersonol adnabyddadwy a rennir yn cael ei chadw gan Dîm Galluogrwydd Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru a chaiff aelodau staff yn yr adran hon fynediad ati i rannu cyfathrebiadau am ein gwasanaethau yn unig. Caiff unrhyw wybodaeth a ddarperir ei storio mewn ardal warchodedig o iShare (system rheoli dogfennau fewnol Llywodraeth Cymru).

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth gyda CIPS i sicrhau bod y rhaglen a ddarperir yn diwallu anghenion y Cytundeb Dysgwyr. Mae gan CIPS yr hawl i gadw eich data, ac mae eu Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yma.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu data personol â Miller Research (UK) Ltd sy'n cynnal adolygiad. Nod yr adolygiad yw gwerthuso cydymffurfiaeth strategol y rhaglen Gwobr Gorfforaethol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gwerthuso ei chanlyniadau dysgu a'i heffaith, a helpu i lywio cyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol. Gallwch weld hysbysiad preifatrwydd adolygiad llawn rhaglen Gwobr Gorfforaethol CIPS.

## Am ba mor hir ydyn ni'n cadw eich data personol?

Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy am hyd at 5 mlynedd. Ar ôl cyfnod o 5 mlynedd bydd y data a gedwir ar ffeil yn cael eu hadolygu. Os nad yw'r data'n cael eu defnyddio mwyach, cânt eu dileu o'n cofnodion.

Gellir rhoi myfyrwyr nad ydynt yn llwyddo i gael cyllid ar gyfer cwblhau astudiaethau CIPS ar restr aros. O ystyried yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw data personol hyd nes y bydd eich lleoliad wedi'i gwblhau.

## Hawliau unigolyn

O dan y GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych drwy unrhyw un o'r ymchwil a gynhaliwyd drwy'r Rhaglen Ymchwil i Weithwyr, ac yn benodol mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- Cael copi o'ch data eich hun.

- Inni gywiro gwallau yn y data hynny.
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar y gwaith o brosesu'r data (mewn rhai amgylchiadau).
- I'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau); ac
- I wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os ydych am arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â ni:

Enw: Simon Brindle
Cyfeiriad e-bost: Simon.Brindle@llyw.cymru
Rhif ffôn: 03000 257310

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru